Ysgol newydd yn cyrraedd uchafbwynt



Mae gwaith ar adeiladu ysgol uwchradd newydd ym Mhenfro'n gyrru ymlaen yn dda.

A, dim ond chwe mis ar ôl torri'r dywarchen gyntaf i nodi dechrau adeiladu, cynhaliwyd seremoni arbennig ar y safle.

Yn dwyn yr enw seremoni ‘gosod y garreg gopa', mae'n garreg filltir adeiladu draddodiadol i nodi cwblhau rhan uchaf yr adeiledd.

Gofynnwyd i westeion a wahoddwyd i dystio'r achlysur lofnodi'r trawst fetel dunnell cyn ei chodi gan graen a'i dodi yn ei lle.



Trefnwyd y seremoni gan Bouygues UK, cwmni adeiladu blaenllaw sy'n brif gontractwyr yr adeilad newydd - ysgol uwchradd gyda lle i 1,463, o fyfyrwyr 11-18 oed a chanolfan awtistiaeth i 30 o ddysgwyr sy'n cael ei hadeiladu ar safle'r ysgol gyfun bresennol.

Yn costio £38.3 miliwn, y prosiect blaenllaw hwn yw'r mwyaf a wnaed erioed gan Gyngor Sir Penfro ac mae'n rhan o raglen fuddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

Ymhlith gwesteion yn y seremoni oedd David Lloyd, Aelod Cabinet y Cyngor Sir dros Addysg, Frank Ciccotti, pennaeth Ysgol Penfro, ac 16 o'i fyfyrwyr.

Mae'r disgyblion yn gweithredu fel ‘llysgenhadon adeiladu', gan gyfarfod yn rheolaidd gyda'r tîm adeiladu fel eu bod yn gallu dweud wrth eu cyfoedion beth sy'n digwydd yn yr ysgol newydd.

Croesawyd gwesteion gan Peter Sharpe, Cyfarwyddwr Prosiect Bouygues UK, tra siaradodd Justin Moore, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r cwmni, am hanes maith a thraddodiad seremonïau ‘gosod y garreg gopa'.

Dywedodd Craig Tatton, Prif Swyddog Gweithredu'r cwmni, bod y prosiect eisoes yn wythnos 38 o amserlen 169 wythnos.

Meddai: "Rydym yn falch iawn o fod yn rhan o'r campws dysgu newydd rhyfeddol hwn ar gyfer y gymuned, gydag amrywiaeth y cyfleusterau fydd ynddo.

"Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac rydym ar y trywydd i ddod i ben ar amser erbyn blwyddyn academaidd Medi 2018."

Dywedodd Darren Thomas, Pennaeth Priffyrdd ac Adeiladu'r Cyngor Sir, wrth y gwesteion bod gwerth rhyw £120 miliwn o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar naw safle o gwmpas Sir Benfro fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Yn ystod y seremoni cyflwynodd Peter Sharpe siec am £990 i gronfa baner Elly - elusen a sefydlwyd gan Elly Neville chwech oed o Benfro i godi arian at ward ganser unswydd yn Ysbyty Llwyn Helyg yn Hwlffordd.

Rhoddwyd yr arian gan Bouygues UK a'i isgontractwyr sy'n gweithio ar y safle.

Bydd yr ysgol newydd yn agor ym mis Medi, 2018, pan fydd gwaith yn dechrau i ddymchwel yr ysgol gyfun bresennol ar y safle.

Mae'r holl waith i'w orffen ym mis Awst, 2019.

- Mae gweithlu Bouygues UK ar y safle'n cynnwys 20 sy'n hyfforddeion neu brentisiaid - 18 ohonynt yn ddi-waith yn flaenorol.
- Mae hanner y gweithlu'n lleol tra caiff 93 y cant o'r archebion ar gyfer y safle eu gosod yn lleol.
- Safle Penfro oedd y cyntaf yng Nghymru i ymuno ag achlysur Drysau Agored Build UK 2017 a bydd y safle ar agor i'r cyhoedd ar 31ain Mawrth a 1af Ebrill.
- Mae'r prosiect hefyd yn cyflwyno ffair yrfâu 'Merched yn Unig' i ysgolion Sir Benfro ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched ar 8fed Mawrth.
- Mae gweithwyr ar y safle wedi rhoi cyfraniadau mewn nwyddau a chodi arian sy'n werth £20,000 at amrywiol achosion da lleol.

Geiriadau

Uchod
David Lloyd, Cynghorydd Sir (ar y chwith), a Craig Tatton o Bouygues UK yn llofnodi'r trawst uchaf.

Isod
Elly Neville chwech oed gyda'i gludwaith o faner Sir Benfro. Mae ei thad, Lyn (ar y dde), yn dal tystysgrif yn nodi rhoi £990 i gronfa baner Elly gan Peter Sharp (ar y chwith) ar ran Bouygues UK. Gyda nhw mae Ann, mam Elly.

